# **Arweiniad atodol:** dysgwyr mwy abl a thalentog

**Hydref 2017**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Darparu arweiniad i arolygwyr ar gyfer arfarnu safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru.

**Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?**

Holl arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol a cholegau AB.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2017

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **1 Cyflwyniad** | **2** |
| **2 Arfarnu safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog** | **3** |
| Maes arolygu 1: Safonau | 3 |
| Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu | 3 |
| Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu | 3 |
| Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad | 4 |
| Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth | 4 |

## Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

# 1 Cyflwyniad

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy roi cyfleoedd ac anogaeth iddynt gyflawni eu potensial dysgu llawn. Ym Mai 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru set o Safonau Ansawdd[1] i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i fodloni anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog. Roedd y nodau a'r safonau hyn yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Hawliau'r Plentyn CCUHP yn 2004. Yn fwy diweddar, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[2] yn nodi saith nod clir ar gyfer lles. Mae un o'r nodau hyn yw - 'Cymru fwy cyfartal' – yn anelu at gael 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau'. Hefyd, mae derbyniad Llywodraeth Cymru o'r pedwar diben a amlinellir yn 'Dyfodol Llwyddiannus'[3] yn cadarnhau ei hymrwymiad i ddatblygu pob dysgwr fel 'dysgwyr uchelgeisiol, medrus', 'cyfranwyr mentrus, creadigol', 'dinasyddion moesegol, gwybodus' ac 'unigolion iach, hyderus'.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar Dysgwyr mwy galluog a thalentog – Canllawiau i'r sector addysg bellach yng Nghymru.

Nid oes diffiniad cyffredinol cytûn o ddysgwyr a fyddai'n cael eu hadnabod, yn gyffredinol, fel dysgwyr mwy abl. Er enghraifft, mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cwmpasu tua 20% o holl boblogaeth yr ysgol, ac fe'i defnyddir i ddisgrifio dysgwyr y mae angen iddynt gael cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi ac ymestyn sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer y garfan gyffredinol o ddysgwyr.

Mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cynnwys dysgwyr sy'n meddu ar fedrau a dealltwriaeth fwy datblygedig ar draws pynciau o fewn y cwricwlwm, yn ogystal â'r rheiny sy'n dangos dawn mewn un maes penodol neu fwy, a allai gynnwys meysydd ymarferol, creadigol a chymdeithasol gweithgarwch dynol.

Mae nodi dysgwyr mwy abl a thalentog wedi cysylltu â'u cyd-destun, ni waeth sut mae'r dysgwyr hyn yn cymharu â dysgwyr mwy abl a thalentog mewn darparwyr eraill. Felly, ym mhob darparwr, dylech ddisgwyl dod o hyd i grŵp o ddysgwyr y nodwyd eu bod yn fwy abl a thalentog, yn ogystal â darpariaeth addas ar gyfer eu datblygiad trwy ehangder a manylder eu profiadau a'u gweithgareddau dysgu. Gall darparu cwricwlwm cyfoethog wella ansawdd y dysgu, a chodi safonau ar gyfer dysgwyr o bob gallu a dawn, gan roi cyfleoedd ac anogaeth iddynt gyflawni eu potensial dysgu llawn.

Mae'r arweiniad atodol hwn yn cysylltu â fframwaith arolygu cyffredin Estyn a'r llawlyfrau arweiniad ar gyfer pob sector.

[1] Cyflawni'r Her, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2008.
[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Llywodraeth Cynulliad Cymru
[3] Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Yr Athro Graham Donaldson CB (2015)

## 2 Arfarnu safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi cwestiynau i arolygwyr eu hystyried wrth arfarnu'r safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae'r cwestiynau yn gysylltiedig â phum maes arolygu'r fframwaith[4].

### Maes arolygu 1: Safonau

- A yw dysgwyr mwy abl a thalentog yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt o wybodaeth am waelodlin a chyflawniad a chyrhaeddiad blaenorol?
- A yw'r safonau y mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn eu cyrraedd yn briodol i'w galluoedd? A yw dysgwyr mwy abl a thalentog yn cyrraedd camau dilyniant penodol yn gyflymach na'u cyfoedion?
- Beth yw'r tueddiadau mewn perfformiad ar y graddau uwch mewn arholiadau allanol a deilliannau uwch na'r disgwyl mewn unrhyw asesiadau sy'n cael eu casglu yn genedlaethol neu'u gwirio'n allanol?

### Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

- Sut mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn teimlo am eu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol?
- Beth yw agweddau'r dysgwyr mwy abl a thalentog at ddysgu, a oes ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith, a pha mor dda y maent yn ymgymryd â thasgau?

### Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

- Pa mor dda y mae athrawon yn ystyried gwahanol alluoedd ac anghenion dysgu'r dysgwyr?
- A yw athrawon yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu, datrys problemau a medrau meddwl lefel uwch yn eu cynllunio a'u haddysgu?
- A yw athrawon yn osgoi dulliau sy'n dibynnu ar ofyniad i'r dysgwyr hyn wneud mwy o'r un gwaith neu waith ymestyn ar lefel isel, fel posau a chwisiau?
- A yw athrawon yn ymwybodol y gallai materion fel dadrithiad rwystro gallu uchel ac y gall cryfderau penodol dysgwr fod mewn meysydd anghonfensiynol i'w datblygu?
- Sut mae'r ysgol/coleg yn trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog? A yw'r cwricwlwm a darpariaeth arall yn ddigon hyblyg a heriol i fodloni anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog? A yw'r ysgol/coleg yn rhoi digon o sylw i'r holl grwpiau o ddysgwyr mwy abl a thalentog, gan gynnwys y

---

Fframwaith Arolygu 2017

rheiny sydd dan anfantais, sydd ag anableddau neu'n dod o grwpiau ethnig lleiafrifol?  A yw'r broses o nodi dysgwyr mwy abl a thalentog yn hyblyg a pharhaus sy'n cynnwys ystod o strategaethau?  A yw'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfoethogi ac ymestyn yn y dosbarth, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol/coleg?

**Maes arolygu 4:  Gofal, cymorth ac arweiniad**

- Pa mor dda y mae'r ysgol/coleg yn nodi, olrhain a monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr mwy abl a thalentog?
- Pa mor dda y mae'r ysgol/coleg yn casglu a dadansoddi ystod o wybodaeth a data, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad, mewn chwaraeon, cerddoriaeth ac yn y celfyddydau creadigol?
- A oes ethos sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr, ac yn annog datblygiad emosiynol, cymdeithasol, corfforol a deallusol?
- A yw'r ysgol/coleg yn nodi anghenion dysgu a lles unigol pan fydd y dysgwyr yn ymuno â nhw ac yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni?
- Mewn ysgolion, a yw staff yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr dysgwyr mwy abl a thalentog ac yn darparu arweiniad priodol sy'n eu galluogi i gefnogi eu plant yn effeithiol?
- Faint o ddylanwad gaiff dysgwyr mwy abl a thalentog ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac yn ehangach mewn grwpiau disgyblion/myfyrwyr yn yr ysgol/y coleg?
- A yw'r ysgol/coleg yn cymryd camau i sicrhau bod yr ethos yn yr ysgol/coleg yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi dathlu galluoedd neu ddoniau unigol?

**Maes arolygu 5:  Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A yw polisïau'r ysgol/coleg yn cefnogi arfer gyson ac effeithiol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog?
- A yw llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog?  A oes monitro systematig ac arfarnu trylwyr i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni cystal ag y gallant?  A oes gan yr ysgol gysylltiadau ag ysgolion eraill, colegau, yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a sefydliadau eraill sy'n eu helpu i ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgwyr?  Pa mor effeithiol y mae ysgolion a darparwyr eraill yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau her barhaus ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog pan fyddant yn trosglwyddo o un i'r llall?
- A oes dysgu proffesiynol addas i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain o ran nodi a bodloni anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog?
- A yw dysgwyr yn cael cyfle i elwa ar adnoddau addas, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ffynonellau ymchwil a gwybodaeth, sy'n ennyn eu diddordeb, yn eu herio ac yn ymestyn eu dysgu ac yn eu galluogi i gyflawni cystal ag y gallant?